# Diffinio a datblygu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer entrepreneuriaid sy'n gorfod diffinio a datblygu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau. Mae'r broses hon yn bwysig ar gyfer cynnig y cynnyrch neu'r gwasanaeth cywir ar gyfer y farchnad, codi'r pris cywir amdano a gwerthu'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau i wneud elw. Mae diffinio'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau yn golygu nodi eu natur unigryw o'u cymharu â chynhyrchion a gwasanaethau eraill i gyrraedd eich targedau.

Mae angen i chi wneud hyn os ydych chi yn:

1. sefydlu busnes neu fenter gymdeithasol newydd;
2. ehangu busnes neu fenter gymdeithasol;
3. newid neu'n addasu'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau a gynigir gan eich busnes neu fenter gymdeithasol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ymchwilio i gynhyrchion a gwasanaethau y gallech eu cynnig
2. cynnal ymchwil i'r farchnad i nodi pwy fyddai'n cystadlu yn eich erbyn a sut mae eu cynhyrchion a'u gwasanaethau yn wahanol i'ch rhai chi
3. penderfynu ar gynhyrchion a gwasanaethau eich busnes
4. ymchwilio i'r mathau o ganiatâd, trwyddedau neu dystysgrifau a allai fod eu hangen ar gyfer eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
5. nodi pwyntiau gwerthu unigryw eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau (USPs)
6. penderfynu pwy fydd eich cwsmeriaid a sut byddwch yn gwerthu eich cynnyrch a'ch gwasanaethau
7. nodi dulliau cyflwyno'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau i gwsmeriaid
8. penderfynu sut y byddwch yn hyrwyddo eich cynnyrch a'ch gwasanaethau i'ch cwsmeriaid targed
9. gweithio allan y galw tebygol am eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
10. ymchwilio i unrhyw ofynion am ganiatâd, trwyddedau neu dystysgrifau
11. ymchwilio i holl gostau darparu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
12. cyfrifo faint o elw y gallwch ei wneud o'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau
13. penderfynu pa bris i'w godi am eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
14. penderfynu ar yr amseroedd cyflwyno, y telerau talu, a lefelau'r gwasanaeth y byddwch yn eu cynnig i'ch cwsmeriaid
15. nodi faint o gynhyrchion a gwasanaethau i'w gwerthu neu eu dosbarthu
16. datblygu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
17. gweithredu'r systemau perthnasol sy'n ofynnol mewn perthynas â gweithgareddau gwerthu a marchnata
18. monitro gwerthiannau a boddhad cwsmeriaid a gwerthuso'r elw o'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau
19. adolygu eich cynnyrch a'ch gwasanaethau yn rheolaidd ac addasu eich cynigion, os oes angen
20. cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol mewn perthynas â chynhyrchion a gwasanaethau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

Cynhyrchion a gwasanaethau

1. beth sydd angen ei ystyried wrth ymchwilio i ba gynhyrchion a gwasanaethau y gallech eu cynnig
2. sut i gael gwybod am ganiatâd, trwyddedau neu dystysgrifau sydd eu hangen
3. sut i ddisgrifio'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau a nodi eich pwyntiau gwerthu unigryw
4. sut i gyfrifo cost darparu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
5. sut mae costau'n effeithio ar gynhyrchion a gwasanaethau
6. gwahanol ffyrdd o brisio cynhyrchion a gwasanaethau a'u buddion
7. y targedau ariannol ar gyfer eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau

Ymchwilio i'r farchnad a chystadleuwyr

8. sut i ymchwilio i'r farchnad a'i phrisiau
9. dulliau perthnasol o farchnata eich cynnyrch a'ch gwasanaethau gan gynnwys dulliau ar-lein
10. y ffactorau sy'n effeithio ar gynhyrchion a gwasanaethau tebyg ar y farchnad
11. sut i gael gwybod pwy allai eich cwsmeriaid fod a'u hanghenion
12. ble i gael gwybodaeth am gynnyrch a gwasanaethau y rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn
13. sut gall cynhyrchion a gwasanaethau y rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn fod yn wahanol
14. sut i ddadansoddi'r farchnad a'r rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn

Gwerthu

15. sut i osod targedau gwerthu realistig

16. sut mae pris yn effeithio ar werthiant

17. ble a phryd y gellir gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau

18. y systemau perthnasol y gellir eu defnyddio ar gyfer olrhain gwerthiannau a boddhad cwsmeriaid

19. dulliau cyflwyno'ch cynhyrchion a'ch gwasanaethau

20. pris, ansawdd, amseroedd cyflwyno, telerau talu, lefelau gwasanaeth

Diffinio a datblygu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 14 Ion 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | CFABD2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr ac Uwch Swyddogion, Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| **Cyfres/Set** | Menter Busnes |
| **Geiriau Allweddol** | llwyddiant, busnes, syniad, cymdeithasol, menter, cwsmeriaid, cynhyrchion, gwasanaeth, cefnogaeth, creadigol, syniad, sgiliau, anghenion, cyflenwyr, arian parod, llif, deddfwriaeth, marchnata, marchnad, tueddiadau, cystadleuwyr, iechyd a diogelwch, TAW |